Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 08.05.24 |
| **Pwnc / Subject:** | **Dysgu 14 i 16 o dan Gwricwlwm i Gymru** |



## Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

| **Cyflwyniad** |
|---|
| Rydym yn croesawu'r ymgais i roi canllawiau i ysgolion am y gofynion ynglŷn â'r cwricwlwm 14-16. Rydym hefyd wedi amlygu agweddau cadarnhaol sy'n cynnwys yr eglurder ynghylch:<br><br>• Crefydd, gwerthoedd a moeseg<br>• Y cwrs TGAU dwy flynedd ym Mlynyddoedd 10 ac 11<br>• Y canllawiau ar elfennau gorfodol<br><br>Rydym hefyd wedi amlygu meysydd pwysig i'w hystyried. Mae'r rhain yn cynnwys:<br><br>• ystyried sut gallai'r canllawiau gynnig eglurder digonol am bob agwedd ar y cwricwlwm ar gyfer arweinwyr a staff ysgolion, er mwyn gallu cyfleu hyn yn glir i ddysgwyr a rhieni<br>• sicrhau bod iaith gyson a chlir yn cael ei defnyddio trwy gydol y canllawiau<br>• ystyried sut gellid mireinio'r canllawiau i gynnwys trosolwg manwl gywir a chlir yn unig o ddisgwyliadau statudol<br>• y geiriad presennol ynghylch astudio'r gwyddorau<br>• gorddefnyddio'r term pedwar diben<br>• y ffordd y mae'r canllawiau yn anelu at roi tegwch i bob dysgwr<br>• effaith y canllawiau hyn ar y Gymraeg<br>• y ffordd y gallai'r diffyg eglurder gynyddu baich gwaith arweinwyr a staff ysgolion; a<br>• rhoi eglurder am sut gall Mentrau Cymdeithasol Cymunedol Gwirfoddol gynorthwyo disgyblion.<br><br>Rydym yn croesawu'r ymagwedd at roi trosolwg o ddisgwyliadau i ysgolion, a byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried a ellid lleihau'r canllawiau hyn i gynnwys y gofynion statudol yn unig, a darparu trosolwg byr a chlir ar gyfer ysgolion (tua dwy i dair tudalen) er mwyn iddynt allu cynllunio a datblygu eu cwricwlwm 14-16. |

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

Ydych chi'n gweithio yn y byd addysg neu'n cefnogi cyflwyno addysg?

| **Ydw** | ✓ | **Nac ydw** | ☐ |
|---|---|---|---|

(i) Os ydw, beth yw eich sefydliad? (Os na, parhewch i (iii) isod)

| Estyn |
|---|

(ii) Beth yw eich prif rôl?

| |
|---|
| Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |

(iii) Os nad ydych yn gweithio yn y byd addysg neu'n cefnogi cyflwyno addysg, ym mha rinwedd hoffech chi roi adborth?

| |
|---|
| |

(iv) Ydych chi'n rhoi adborth ar ran sefydliad neu grŵp?

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ydw** | ✓ | **Nac ydw** | ☐ |

(v) Os 'ydw', nodwch.

| |
|---|
| Estyn |

**Cwestiwn 1** – I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y Canllawiau Dysgu 14 i 16 yn eich helpu i ddeall eich rhwymedigaethau statudol ar gyfer dysgwyr 14 i 16 o dan Gwricwlwm i Gymru?

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno'n gryf** | ☐ | **Cytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ✓ | **Anghytuno'n gryf** | ☐ |

**Cwestiwn 2** – I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y Canllawiau Dysgu 14 i 16 yn eich helpu i ddeall sut dylid defnyddio'r arlwy cymwysterau i gefnogi arlwy cwricwlwm 14 i 16 ar gyfer dysgwyr o dan Gwricwlwm i Gymru?

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno'n gryf** | ☐ | **Cytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ✓ | **Anghytuno'n gryf** | ☐ |

**Cwestiwn 3** – I ba raddau ydych chi'n cytuno bod y Canllawiau Dysgu 14 i 16 yn eich helpu i ddeall sut dylid cynllunio arlwy cwricwlwm 14 i 16?

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cytuno'n gryf** | ☐ | **Cytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ✓ | **Anghytuno'n gryf** | ☐ |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **nac yn anghytuno** | | | | | |

**Cwestiwn 4 –** I ba raddau ydych chi’n cytuno bod y Canllawiau Dysgu 14 i 16 yn cynnwys lefel ddigonol o fanylder?

| **Cytuno’n gryf** | ☐ | **Cytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ✓ | **Anghytuno’n gryf** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|

**Cwestiwn 5 –** Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y bydd y polisi a amlinellir yn y Canllawiau Dysgu 14 i 16 yn eu cael ar y gweithlu ysgolion, gan gynnwys unrhyw effaith y gallai ei chael ar feichiau gwaith.

Rydym yn croesawu nod Llywodraeth Cymru i roi eglurder i ysgolion am ofynion dysgu 14-16. Rydym yn cydnabod bod cyfleu’r polisi cymhleth hwn yn heriol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae’r canllawiau hyn yn anodd i’w dehongli, ac mae risg y bydd yn cynyddu baich gwaith arweinwyr a staff ysgolion oherwydd gallai greu dryswch am ofynion gorfodol ac elfennau opsiynol. Mae agweddau pwysig yn amwys ac yn agored i ddehongli sylweddol. Bydd hyn yn ei gwneud yn heriol sicrhau bod cwricwlwm ysgol unigol yn bodloni gofynion statudol a bod arlwy cyson ar gyfer dysgwyr ledled Cymru.

Rydym yn croesawu’r eglurder a roddwyd ynghylch crefydd, gwerthoedd a moeseg yn 5.12.4, a byddem yn annog Llywodraeth Cymru i roi eglurder tebyg ar gyfer yr holl agweddau eraill. Mae’r canllawiau hyn hefyd yn darparu gwybodaeth glir a manwl gywir am ofynion cymwysterau TGAU i fod yn gwrs dwy flynedd ym Mlynyddoedd 10 ac 11.

Mae’r canllawiau hyn yn cyfeirio’n rheolaidd at y pedwar diben, ac er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod pob disgybl yn gwneud cynnydd tuag at yr agweddau pwysig hyn, mae ffocws rhy gryf mewn rhai ysgolion ar hyn o bryd ar gynllunio ac asesu ar gyfer y pedwar diben, er anfantais i ddysgu a chynnydd disgyblion yn gyffredinol. Byddai’n fuddiol gwneud y gofynion o amgylch y pedwar diben yn glir ac y dylid eu gweld mewn ffordd gyfannol fel rhan o gynllun cwricwlwm ysgol gyfan ehangach. Ar hyn o bryd, mewn ysgolion lle mae athrawon yn cynllunio gwersi unigol am y pedwar diben, rydym yn gweld cynnydd ym maich gwaith staff, ac yn aml, mae disgyblion yn gwneud cynnydd llai na’r disgwyl yn eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a’u medrau. Yn ychwanegol, gall gormod o ffocws ar y pedwar diben olygu nad yw athrawon ac arweinwyr yn cynllunio’n ddigon da i gefnogi cynnydd disgyblion. Yn aml, maent yn creu cysylltiadau disylwedd â’r dibenion ar draul dysgu’r disgyblion. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru, pan fyddwch yn mireinio’r canllawiau hyn, i leihau’r cyfeiriad at y pedwar diben drwyddi draw.

At ei gilydd, nid yw’r canllawiau hyn yn darparu eglurder digonol i ysgolion. Mae’r canllawiau yn hir a bydd yn cymryd amser i arweinwyr ac athrawon eu prosesu a’u cymhwyso i’w lleoliadau. Byddai ysgolion yn elwa ar ganllawiau mwy cryno sy’n rhoi eglurder am elfennau gorfodol, a’r rhai nad ydynt yn orfodol, ac felly’n cael eu hargymell.

Mewn lleoedd pwysig, mae'r iaith yn rhy annelwig ac nid yw'n rhoi digon o eglurder i arweinwyr ysgolion gefnogi eu proses ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm.

Mae'r rhestr o elfennau gorfodol yn rhoi trosolwg addas ac yn cynnwys y term 'rhaid' sy'n helpu ysgolion i fod yn glir ynglŷn â'r hyn sydd ei angen. Fodd bynnag, mae terminoleg arall yn y canllawiau sy'n llai clir, fel 'anogir' a 'cynghori'n gryf'. Mae hyn yn gwneud i agweddau ymddangos yn fwy opsiynol i ysgolion.

Dyma enghreifftiau o hyn:

- Nid yw'r canllawiau'n rhoi pwyslais digon cryf ar yr angen i ddisgyblion astudio gwyddoniaeth hyd at 16 oed. Mae'r derminoleg 'argymhellir yn gryf' yn gwneud iddo ymddangos bod y pwnc hwn yn opsiynol. Mae hyn, ynghyd â'r newidiadau i gymwysterau mewn gwyddoniaeth, yn destun pryder.
- Wrth ystyried y Gymraeg, mae'r canllawiau'n datgan bod ysgolion yn cael eu cynghori'n gryf i ystyried sut byddant yn sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd addas yn ei fedrau. Mae hyn yn rhy annelwig ac yn rhoi disgwyliadau digon uchel ar ysgolion i wella medrau Cymraeg disgyblion. Byddai'n fuddiol sicrhau bod y canllawiau hyn yn cyd-fynd â Bil y Gymraeg a fydd yn cael ei gyhoeddi cyn bo hir.
- Mae'r canllawiau'n datgan bod ysgolion yn cael eu hannog i gynnig ieithoedd rhyngwladol. Mae risg y bydd ysgolion yn tynnu hyn o arlwy eu cwricwlwm.

Rydym yn croesawu'r eglurder a roddir ynglŷn â'r gofyniad gorfodol i ddisgyblion astudio llythrennedd a mathemateg a rhifedd hyd nes byddant yn 16 oed. Mae hyn yn glir a bydd yn helpu ysgolion i sicrhau bod pob disgybl yn elwa ar yr agweddau pwysig hyn. Byddai'n fuddiol rhoi eglurder tebyg ar gyfer pynciau fel Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg, gwyddoniaeth a'r gofynion ar gyfer y cymwysterau sy'n annog ehangder yn y cwricwlwm.

Ar hyn o bryd, nid yw'n glir beth mae'r arweiniad yn ei olygu pan mae'n cyfeirio at gwricwlwm sy'n eang a chytbwys. Credwn ei bod yn hanfodol i'r canllawiau hyn roi eglurder am sut mae'n rhaid i ysgol sicrhau ei bod yn cynnig ystod a dyfnder y dysgu ar draws gwahanol feysydd dysgu a phrofiad.

Yn adran gyntaf y canllawiau am ofynion gorfodol, mae'n ei gwneud yn glir fod yn rhaid i ysgolion sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd i gymhwyso a datblygu eu medrau. Fodd bynnag, yn yr adrannau am feysydd dysgu a phrofiad unigol, mae'n datgan y dylai ysgolion ddarparu'r cyfleoedd hyn. Byddai'n fuddiol defnyddio iaith gyson i ddarparu eglurder i arweinwyr ysgolion leihau eu baich gwaith wrth ddehongli a dadansoddi canllawiau.

Mae agweddau eraill ar y canllawiau nad ydynt yn eglur a byddant yn cynyddu baich gwaith arweinwyr ac athrawon ysgolion wrth ddehongli a chymhwyso'r canllawiau hyn. Dyma enghreifftiau o hyn:

- mae'r canllawiau'n datgan: 'rydym yn cynghori y dylai'r amser hwn ganolbwyntio ar gynorthwyo unigolion i ddatblygu eu heffeithiolrwydd fel dysgwyr, lle maent yn cael eu cynorthwyo a'u herio i feddwl am eu cryfderau, eu meysydd i'w gwella…'
- mae'r canllawiau'n datgan: 'rydym yn cynghori ysgolion yn gryf i ystyried sut maent yn bwriadu sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd addas a heriol yn ei fedrau'

Yn y ddwy enghraifft, gallai'r diffyg eglurder am derminoleg a chyfeirio at agweddau fel effeithiolrwydd dysgwyr hyrwyddo arfer ddi-fudd mewn ysgolion. Rydym hefyd o'r farn fod cynnwys yr agweddau hyn mewn canllawiau statudol yn debygol o gynyddu baich gwaith y gweithlu cyfan gan y byddant yn teimlo bod ganddynt y dystiolaeth sy'n bodloni'r gofynion hyn.

Rydym yn croesawu'r ymagwedd hon at ddarparu trosolwg o ddisgwyliadau o ysgolion, a byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried a ellid lleihau'r canllawiau i gynnwys y gofynion statudol yn unig, a darparu brîff (tua dwy i dair tudalen) a throsolwg clir i ysgolion er mwyn iddynt allu cynllunio a datblygu eu cwricwlwm 14-16.

Er ei bod yn fuddiol bod y canllawiau'n ailadrodd gwybodaeth bwysig, fel y gofynion i gyrsiau bara dwy flynedd, ar y cyfan, byddai'n fuddiol sicrhau bod y canllawiau hyn yn cael eu trefnu mewn ffordd glir a chryno i osgoi ailadrodd gwybodaeth a lleihau unrhyw faich gwaith ychwanegol wrth geisio deall ychydig o agweddau ar y canllawiau.

**Cwestiwn 6 –** Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y bydd y polisi a amlinellir yn y Canllawiau Dysgu 14 i 16 yn eu cael ar anghenion amrywiol dysgwyr unigol, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig (fel yr amlinellir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

At ei gilydd, mae'r diffyg eglurder yn y canllawiau hyn yn ei gwneud yn anodd gweld sut mae'r canllawiau'n anelu at fynd i'r afael ag effaith tlodi neu i gynorthwyo disgyblion o amrywiaeth o gefndiroedd. Nid oes cyfeiriad at anfantais, tlodi na chynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Wrth ystyried ymagweddau cadarnhaol at fynd i'r afael ag effaith tlodi a sicrhau tegwch yn ein system addysg, rydym yn gwybod mai'r cam pwysicaf ar hyn o bryd i berson ifanc symud allan o dlodi yw manteision ar addysgu o ansawdd uchel ac ennill ystod o gymwysterau sy'n cefnogi ei gamau nesaf mewn dysgu. Er bod y canllawiau hyn yn cyfeirio at elfennau gorfodol pwysig, gan gynnwys llythrennedd a rhifedd, nid yw'n ei gwneud yn ddigon clir y dylai disgyblion sy'n byw mewn tlodi allu ennill ystod eang o gymwysterau buddiol sy'n eu helpu i symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ddarparu eglurder am ddisgwyliadau pob disgybl sy'n dilyn cymwysterau ystyrlon a heriol sy'n cefnogi eu camau nesaf mewn dysgu.

Gallai'r cyfeiriad y gallai ysgolion ystyried sut gall portffolios digidol dysgwyr gynorthwyo i goladu gwybodaeth gael effaith negyddol ar y disgyblion hynny sy'n byw mewn tlodi. I sicrhau tegwch, byddai angen i ysgolion sicrhau bod pob disgybl yn cael mynediad at systemau digidol.

**Cwestiwn 7 –** Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y Canllawiau Dysgu 14 i 16 ar y Gymraeg ym Mlynyddoedd 10 ac 11? Mae gennym ni ddiddordeb yn benodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?

Ydych chi'n meddwl bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol?

**Sylwadau ategol**

Nid yw'r defnydd o'r term 'cynghori'n gryf' yn yr adran ar y Gymraeg yn gwneud y disgwyliadau ar gyfer ysgolion yn glir. Byddem yn croesawu mwy o eglurder i ysgolion am y disgwyliadau uchel o ran datblygu medrau Cymraeg disgyblion i barhau i hyrwyddo effeithiau cadarnhaol dysgu'r iaith.

Rydym yn croesawu bod y canllawiau'n mynd i'r afael â phob categori iaith. Fodd bynnag, nid ydynt yn diffinio'n glir beth yw'r disgwyliadau ar ysgolion ym mhob categori a'r cyrsiau y dylent eu cynnig i ddiwallu anghenion iaith eu disgyblion.

Fel y dywedom yn flaenorol, nid yw'n glir beth mae'n ei olygu wrth ddweud 'rydym yn cynghori ysgolion yn gryf i ystyried sut maent yn bwriadu sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd addas a heriol yn ei fedrau.' Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ddarparu eglurder am ddisgwyliadau yn yr agwedd hon.

Yn ychwanegol, pan mae'r canllawiau'n datgan y 'bydd hyn yn galluogi ysgolion i fodloni'r gofyniad i gynnwys y pwnc hwn fel rhan orfodol o'u cwricwlwm', mae'n awgrymu y bydd unrhyw gymhwyster ar gyfer y Gymraeg yn bodloni'r gofynion er gwaethaf gallu disgyblion yn yr iaith.

Wrth gyfeirio at bynciau iaith a llenyddiaeth Gymraeg a Saesneg, mae'r canllawiau'n nodi bod 'Y dyfarniad dwbl wedi cael ei gyflwyno i ddarparu'r cymhwyster mwyaf priodol ar gyfer mwyafrif y dysgwyr' ac 'Mae'r dyfarniad sengl yn darparu llwybr amgen ar gyfer cyfran fach y dysgwyr'. Mae gennym bryderon fod y disgwyliad mai mwyafrif yn unig o ddisgyblion y disgwylir iddynt ddilyn y dyfarniad deuol yn rhy isel. Mae risg nodedig na fydd gormod o ddisgyblion yn gallu dilyn y cymwysterau pwysig hyn a fydd hefyd yn helpu mynd i'r afael ag effaith tlodi.

Mae'r canllawiau hefyd yn datgan: 'Dylai dysgwyr newydd sy'n ymuno ag ysgolion categori 3 gael cyfle i fynychu canolfan drochi hwyr'. Nid yw'r ddarpariaeth hon ar gael ym mhob ardal ledled Cymru ar hyn o bryd, a byddai'n rhwystr i nifer o ddisgyblion. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried p'un a ellir cymhwyso dyheadau yn y canllawiau yn gyson ar gyfer pob disgybl.

Nid yw'r iaith a ddefnyddir yn yr adran ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg categori 1 (5.5.5) yn gwneud y disgwyliadau ar ysgolion yn glir. O ganlyniad, mae'r Canllawiau Dysgu ar y Gymraeg ym Mlynyddoedd 10 ac 11 ar gyfer yr ysgolion hyn yn aneglur o ran rhoi cyfleoedd i ysgolion drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Nid yw Adran 5.5.6 yn ei gwneud yn glir fod yn rhaid i ysgolion categori 2 sicrhau bod eu dysgwyr yn symud ymlaen ar y continwwm llwybr iaith. Gan fod y canllawiau'n annelwig, mae'n lliniaru cyfleoedd i'r ysgolion hyn i alluogi disgyblion i newid eu llwybr iaith a dilyn y cwrs Cymraeg Craidd yn hytrach na'r cwrs iaith a llenyddiaeth Gymraeg. Bydd hyn yn cael effaith negyddol ar yr iaith.

Yn 5.5.7, mae'r iaith a ddefnyddir yn rhy annelwig; er enghraifft, 'Dylai dysgwyr yn ysgolion categori 1 a 2 sydd wedi astudio mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg yn flaenorol gael cyfle i astudio cymwysterau o blith y gyfres o gymwysterau sydd fwyaf priodol i'w lefel gallu. Mae

| |
|---|
| hyn yn cynnwys cyfle i astudio iaith a llenyddiaeth Gymraeg TGAU a dyfarniad lefel 2 mewn Cymraeg Craidd ychwanegol, lle mae eu hysgol yn barnu mai'r cymwysterau hyn sydd fwyaf priodol i'w lefel gallu'. Mae defnyddio'r gair 'dylai' yn galluogi ysgolion i drin y Gymraeg a'i chontinwwm yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac felly'n cael effaith niweidiol ar iaith a llenyddiaeth Gymraeg yn benodol.<br><br>Wrth ystyried y materion a amlinellir uchod, mae perygl fod y canllawiau hyn yn cael effaith negyddol ar gyfleoedd disgyblion i ddysgu a datblygu eu medrau Cymraeg. Bydd yn bwysig i'r canllawiau hyn gyd-fynd â Bil y Gymraeg a fydd yn cael ei gyhoeddi eleni. |

**Cwestiwn 8** – Yn eich barn chi, a ellid ffurfio neu newid y Canllawiau Dysgu 14 i 16 er mwyn:

- cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
- liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

| |
|---|
| Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i roi eglurder i ysgolion trwy wneud defnydd cyson o iaith i ddisgrifio disgwyliadau.<br><br>Er enghraifft, mae angen newid y gair 'dylai' neu 'gallu' i **'rhaid'** yn y brawddegau canlynol i liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg:<br>• Fel rhan o 'Cymwysterau mewn llythrennedd a rhifedd' ym Mlynyddoedd 10 ac 11, **dylai** pob dysgwr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg categori 3 ddilyn cwrs heriol ac uchelgeisiol sy'n arwain at gymhwyster yn y Gymraeg.<br>• Ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg categori 1, mae'r gyfres o gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru yn cynnig cyrsiau i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu parhau i wneud cynnydd, a derbyn cymhwyster yn 16 oed, yn Gymraeg.<br>• Ar gyfer ysgolion dwy iaith categori 2, mae'r gyfres o gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru yn yr un modd yn cynnig cyrsiau i sicrhau bod pob dysgwr yn **gallu** parhau i wneud cynnydd, a derbyn cymhwyster yn 16 oed, yn Gymraeg.<br>• **Dylai** dysgwyr mewn ysgolion categori 1 a 2 sydd wedi astudio mewn lleoliad cyfrwng Cymraeg yn flaenorol gael cyfle i astudio cymwysterau o blith y gyfres o gymwysterau sydd fwyaf priodol i'w lefel gallu.<br><br>Yn ychwanegol, mae'r frawddeg hon: 'dylai lleoliadau gael cyfle i astudio cymwysterau o blith y gyfres o gymwysterau sydd fwyaf priodol i'w lefel gallu' yn agored i'w dehongli ac yn achosi perygl na fydd disgyblion yn dilyn continwwm iaith yn seiliedig ar eu dysgu blaenorol. |

**Cwestiwn 9** - Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi:

Rydym yn croesawu'r ffaith fod Llywodraeth Cymru yn anelu at roi mwy o ganllawiau i gynorthwyo ysgolion i ddatblygu eu harlwy 14-16. Rydym yn cytuno â phwysigrwydd cymwysterau TGAU i fod yn gyrsiau dwy flynedd, ac yn croesawu'r ffaith fod Llywodraeth Cymru yn annog ysgolion i sicrhau bod disgyblion yn gallu manteisio ar ystod o ddisgyblaethau neu bynciau. Fodd bynnag, byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried sut gellid mireinio'r canllawiau hyn i roi mwy o eglurder am ddisgwyliadau ar gyfer arweinwyr a staff ysgolion. Byddai hefyd yn fuddiol darparu modelau cwricwlwm enghreifftiol ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 10 ac 11 i gynorthwyo ysgolion yn eu proses gynllunio. Byddai'n fuddiol ystyried sut gall Mentrau Cymdeithasol Cymunedol Gwirfoddol gynorthwyo disgyblion i ehangu eu gwybodaeth a'u medrau ac ystyried defnydd priodol o'r cymwysterau hyn. Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ddarparu mwy o eglurder am gynllunio ôl-16 a chynorthwyo pobl ifanc i wneud penderfyniadau gwybodus am eu dyfodol.

Mae gennym ni bryderon nodedig am y ffordd y mae'r canllawiau hyn yn cyfeirio at ddysgwyr yn astudio gwyddoniaeth hyd nes byddant yn 16 oed. Mae perygl fod hwn yn cael ei weld fel pwnc opsiynol, ac rydym yn cydnabod ei bod yn bwysig i ddisgyblion astudio cyrsiau gwyddoniaeth. Gallai'r ffaith fod canllawiau dim ond yn cynghori hyn yn gryf olygu bod rhai ysgolion yn dehongli nad yw hyn yn ofyniad.

Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod unrhyw fesurau perfformiad yn cefnogi'r canllawiau hyn ac yn sicrhau bod yr holl ddisgyblion yng Nghymru yn gallu dilyn cymwysterau perthnasol, ystyrlon a buddiol sy'n eu paratoi ar gyfer eu camau nesaf.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐